



## Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Health & Social Services Group

Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl, Byrddau Iechyd Lleol

Cyfarwyddwyr Cyllid, Byrddau Iechyd Lleol

Optometryddion ac Ymarferwyr Meddygol Offthalmig ar restrau Byrddau Iechyd Lleol

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

07 Mawrth 2025

Annwyl Gydweithwyr

## **FFIOEDD GWASANAETHAU OFFTHALMIG CYFFREDINOL A GWASANAETHAU ARCHWILIO LLYGAID, FFFIOEDD YMWELIADAU CARTREF, TALIADAU AR GYFER DATBLYGIAD PROFFESIYNOL PARHAUS, GRANT GORUCHWYLLWYR CYN-GOFRESTRU, GRANT I BRACISAU AR GYFER UWCH DYSTYSGRIF BROFFESIYNOL COLEG YR OPTOMETRYDDION MEWN GLAWCOMA AC ANSAWDD OPTOMETREG.**

### Crynodeb

1. Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu am y canlynol:

- Ffi (Prawf Golwg y GIG) Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol, Ffioedd Gwasanaethau Archwilio Llygaid a ffioedd ymweliadau cartref o 21 Hydref 2024 ymlaen;
- Taliadau Cydweithrediadau Optometreg Clwstwr o 21 Hydref 2024 ymlaen;
- Uchafswm ffi fesul claf y Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty o 21 Hydref 2024 ymlaen;
- Taliad Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer blynnyddoedd calendr 2023 a 2024 yn y drefn honno;
- Grant sy'n daladwy i oruchwylwyr hyfforddeion cyn-gofrestru;
- Grant i Bractisau ar gyfer Uwch Dystysgrif Broffesiynol Coleg yr Optometryddion mewn Glawcoma;
- Ansawdd Optometreg.

2. Byddem yn ddiolchgar pe gallech ddwyn yr wybodaeth hon i sylw'r holl staff sy'n delio â gwasanaethau offthalmig gofal sylfaenol, h.y. optegwyr cyflenwi, optometryddion, ymarferwyr meddygol offthalmig a staff eraill sy'n ymwneud â'r gwasanaeth llygaid mewn ysbyty.

3. Dylai Byrddau Iechyd Lleol sicrhau bod copïau o'r llythyr hwn yn cael eu dosbarthu i'r holl optegwyr cyflenwi, optometryddion ac ymarferwyr meddygol offthalmig yn eu hardaloedd.

4. Gwneir y penderfyniad a'r cyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol sydd wedi'u cynnwys yn Atodiad 2 i'r llythyr hwn drwy arfer pwerau Gweinidogion Cymru yn adrannau 12(3), 76, 77 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

### **Ffioedd Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol a Gwasanaethau Archwilio Llygaid / Ffioedd Ymweliadau Cartref y GIG**

5. Mae Ffi (Prawf Golwg y GIG) Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol wedi cynyddu ar gyfer 2024/25 ac mae wedi'i phennu ar £44.00, gan ddod yn weithredol o 21 Hydref 2024 ymlaen.
6. Mae'r Ffi Gwasanaeth Archwilio Llygaid sy'n weithredol o 21 Hydref 2024 ymlaen fel a ganlyn - mae GOCC 2 Band 1 yn £71.63; GOCC 2 Band 2 yn £54.23; a GOCC 2 Band 3 yn £26.61.
7. Ar gyfer ymweliadau cartref y GIG a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2024 neu ar ôl hynny, y ffi yw £40.57 ar gyfer y claf cyntaf a'r ail glaf a £10.15 ar gyfer y trydydd claf a chleifion eraill.
8. Rhaid gwneud taliadau yn unol â'r Datganiad o Dâl am Wasanaethau Offthalmig Cyffredinol a Chyfarwyddydau Ffioedd yn Atodiad 2.

### **Taliadau Cydweithrediadau Optometreg Clwstwr o 20 Hydref 2023 ymlaen**

9. Er mwyn sicrhau cysondeb o ran ymgysylltu ledled Cymru, mae Cydweithrediadau Optometreg Clwstwr yn cael eu sefydlu gyda dyletswydd ar bob practis optometreg o fewn y clwstwr i ymgysylltu drwy gymryd rhan yng nghyfarfodydd y Cydweithrediadau Proffesiynol Optometreg. Rhaid i bob practis optometreg fynd i o leiaf 4 cyfarfod y flwyddyn ariannol, a dylid ei ad-dalu am fynd i bob cyfarfod, hyd at uchafswm o bedwar cyfarfod. Rhaid gwneud taliadau yn unol â'r Datganiad o Dâl am Wasanaethau Offthalmig Cyffredinol a Chyfarwyddydau Ffioedd yn Atodiad 2.

### **Uchafswm ffi fesul claf o fewn y Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty**

10. Bydd uchafswm ffioedd y Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty yn parhau fel a ganlyn: £70.00 ar gyfer lensys golwg sengl; a £113.80 mewn unrhyw achos arall.

### **Taliadau ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)**

11. Mae'r taliadau mewn cysylltiad â datblygiad proffesiynol parhaus yr ymgymerwyd ag ef yn 2023 a 2024 gan optometryddion, optegwyr cyflenwi ac ymarferwyr meddygol offthalmig heb benodiad meddygol arall (h.y. nad ydynt yn gwneud unrhyw waith arall am dâl oni bai am ddarparu Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) wedi'u nodi yn y Datganiad o Dâl am Wasanaethau Offthalmig Cyffredinol a Chyfarwyddydau Ffioedd yn Atodiad 2. Bydd canllawiau pellach yn dilyn maes o law gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP).
12. Gwneir taliadau mewn cysylltiad â hawliadau a wneir gan optegwyr cyflenwi, optometryddion ac ymarferwyr meddygol offthalmig sy'n ymwneud â hyfforddiant DPP yr ymgymerwyd ag ef yn ystod y flwyddyn rhwng 1 Ionawr a 31 Rhagfyr 2023 a 1

Ionawr a 31 Rhagfyr 2024 yn y drefn honno fel y nodir yn Atodiad 2. Rhaid gwneud taliadau yn unol â'r Datganiad o Dâl am Wasanaethau Offthalmig Cyffredinol a Chyfarwyddydau Ffioedd yn Atodiad 2.

### **Grant goruchwylwyr cyn-gofrestru**

13. Mae'r lwfans a delir i oruchwylwyr hyfforddeion cyn-gofrestru wedi cynyddu i £7,500. Dylid talu hawliadau gan hyfforddwyr sy'n ymgymryd â'r gwaith o oruchwyllo hyfforddeion cyn-gofrestru ar 1 Medi 2024 neu ar ôl hynny ar y gyfradd hon.

### **Grant i Bractisau (Uwch Dystysgrif Broffesiynol mewn Glawcoma GOCC 4)**

14. Er mwyn annog contractwyr i ryddhau optometryddion i gwblhau'r gofynion clinigol ar gyfer Uwch Dystysgrif Broffesiynol y Coleg Optometryddion mewn Glawcoma, caiff practisau optometreg eu had-dalu ar gyfer pob sesiwn glinigol y bydd optometrydd yn mynd iddi at ddibenion cyflawni'r cymhwyster, hyd at uchafswm o ddeugain sesiwn (20 diwrnod). Rhaid gwneud taliadau yn unol â'r Datganiad o Dâl am Wasanaethau Offthalmig Cyffredinol a Chyfarwyddydau Ffioedd yn Atodiad 2.

### **Ansawdd Optometreg**

15. Er mwyn gwella trefniadau llywodraethu ymhellach, mae safonau Gwella Ansawdd ffurfiol wedi'u cyflwyno ar gyfer Optometreg yng Nghymru. Mae angen systemau gwella ansawdd cadarn er mwyn mesur a sicrhau canlyniadau o'r radd flaenaf i gleifion yng Nghymru. Fel rhan o'r cynllun, mae'n ofynnol i gontractwyr gwblhau offeryn System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru (WNWRS) lle nodir gweithlu eu practis; llenwi'r templed llywodraethu Ansawdd Optometreg; cymryd rhan mewn, a chwblhau, tri archwiliad bob blwyddyn (archwiliadau clinigol ac anghlinigol); ac ymgymryd â hyfforddiant gorfodol yn ôl yr angen. Rhaid gwneud taliadau yn unol â'r Datganiad o Dâl am Wasanaethau Offthalmig Cyffredinol a Chyfarwyddydau Ffioedd yn Atodiad 2.

### **Canllawiau**

16. Bydd copi o'r llythyr hwn a'r Atodiadau yn cael eu rhoi ar wefan NWSSP yn [Gwasanaethau Offthalmig - Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru](#).

17. Os oes gan optometryddion, optegwyr cyflenwi neu ymarferwyr meddygol offthalmig unrhyw ymholiadau, dylent gysylltu â'u Bwrdd Iechyd Lleol neu Wasanaethau Gofal Sylfaenol yn NWSSP.

### **Gwerthoedd Talebau Optegol y GIG**

18. Mae gwerthoedd talebau a thaliadau atodol optegol y GIG wedi'u diwygio o 21 Hydref 2024 ymlaen – ceir cyfeiriad atynt yn Atodiad 1.

Yn gywir



**Rhys Davies**  
**Yr Is-adran Gofal Sylfaenol**

Copïau at: Optometreg Cymru

Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru – Gwasanaethau Gofal Sylfaenol

Paul Casey, Dirprwy Gyfarwyddwr Gofal Sylfaenol a Chymunedol, Llywodraeth Cymru  
(LIC)

Sarah O'Sullivan Adams, Pennaeth y Gangen Optometreg ac Awdioleg (LIC)

David O'Sullivan, Prif Gynghorydd Optometrig (LIC)

**Gwerthoedd Talebau a Thaliadau Atodol**

Mae diweddariadau wedi'u gwneud i dalebau a thaliadau atodol optegol y GIG fel y maent wedi'u nodi yn *Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997*, i ddod yn weithredol o 21 Hydref 2024 ymlaen. Isod, ceir crynodeb o werthoedd y talebau a'r taliadau atodol ar 21 Hydref 2024 er gwybodaeth yn unig.

<b>Taleb ar gyfer cyflenwi - math o declyn optegol</b>		<b>Gwerth</b>
<b>(1) Math o declyn optegol</b>	<b>(2) Cod rhif</b>	<b>(3) Gwerth y daleb ar yr wyneb</b>
1. Sbectol sydd â lensys golwg sengl o nerth sfferig o ddim mwy na 6 dioptr a nerth silindrog o ddim mwy na 2 dioptr.	1	£22.37
2. Sbectol sydd â lensys golwg sengl - (a) o nerth sfferig o fwy na 6 dioptr ond llai na 10 dioptr a nerth silindrog o ddim mwy na 6 dioptr; (b) o nerth sfferig o lai na 10 dioptr a nerth silindrog o fwy na 2 dioptr ond dim mwy na 6 dioptr.	2	£42.71
3. Sbectol sydd â lensys golwg sengl o nerth sfferig o 10 dioptr neu ragor ond dim mwy nag 14 dioptr a nerth silindrog o ddim mwy na 6 dioptr.	3	£157.64
4. Sbectol sydd â lensys golwg sengl - (a) o nerth sfferig o fwy na 14 dioptr ac unrhyw nerth silindrog; (b) o nerth silindrog o fwy na 6 dioptr ac unrhyw nerth sfferig.	4	£280.69
5. Sbectol sydd â lensys golwg sengl - (a) o nerth sfferig o fwy na 20 dioptr ac unrhyw nerth silindrog; (b) o nerth silindrog o fwy na 10 dioptr ac unrhyw nerth sfferig.	5	£383.41
6. Sbectol sydd â lensys amlffocal o nerth sfferig o ddim mwy na 6 dioptr a nerth silindrog o ddim mwy na 2 dioptr.	6	£40.68
7. Sbectol sydd â lensys amlffocal -	7	£78.31

(a) o nerth sfferig o fwy na 6 dioptir ond llai na 10 dioptir a nerth silindrog o ddim mwy na 6 dioptir; (b) o nerth sfferig o lai na 10 dioptir ond nerth silindrog o fwy na 2 dioptir ond dim mwy na 6 dioptir.		
8. Sbectol sydd â lensys amlffocal o nerth sfferig o 10 dioptir neu ragor ond dim mwy na 14 dioptir a nerth silindrog o ddim mwy na 6 dioptir	8	£304.08
9. Sbectol sydd â lensys amlffocal a reolir gan brism o unrhyw nerth neu sydd â lensys amlffocal - (a) o nerth sfferig o fwy na 14 dioptir ac unrhyw nerth silindrog; (b) o nerth silindrog o fwy na 6 dioptir ac unrhyw nerth sfferig.	9	£393.58
10. Sbectol sydd â lensys amlffocal - (a) o nerth sfferig o fwy na 20 dioptir ac unrhyw nerth silindrog; (b) o nerth silindrog o fwy na 10 dioptir ac unrhyw nerth sfferig.	10	£539.01
11. Sbectol nad yw unrhyw un o'r paragraffau o 1 i 10 yn berthnasol iddi y rhoddir presgripsiwn ar ei chyfer o ganlyniad i brawf golwg gan Fwrdd Iechyd Lleol ac eithrio o dan drefniant o dan Ran 6 o Ddeddf 2006.	11	£539.01
12. Lensys cyswllt y rhoddir presgripsiwn ar eu cyfer o ganlyniad i brawf golwg gan Fwrdd Iechyd Lleol ac eithrio o dan drefniant o dan Ran 6 o Ddeddf 2006.	12	£57.97

### Taleb Lensys Cymhleth

### Gwerth o 20 Hydref 2023 ymlaen

Golwg Sengl  
Deuffocal

£14.85  
£38.04

### Arlliw / Lensys Ffotocromaidd Tâl Atodol (fesul lens)

Golwg Sengl £2.03  
Deuffocal £2.54

**Prism (fesul lens)**

Golwg Sengl £12.20  
Deuffocal £14.24

**Tâl Atodol am Sbectol Fach**

Tâl atodol £65.29

**Tâl Atodol i Blant** £15.26

Pan fydd yr unigolyn cymwys o dan 19 oed yn derbyn taleb 1 ac mae angen cael lensys nad oes cyflenwad ohonynt yn cael eu cadw wrth gefn er mwyn gwella ymddangosiad y teclyn optegol (y defnyddir y daleb ar ei gyfer), sydd â lensys golwg sengl o nerth sfferig o rhwng 4 a 6 dioptre a nerth silindrog o ddim mwy na 2 dioptre.

**Taleb ar gyfer Costau Trwsio neu Newid o 21 Hydref 2024 ymlaen**

Rhif y Daleb	1 lens	2 lens	Blaen y ffrâm	Ochr y ffrâm	Y ffrâm gyfan
1	6.10	12.20	8.64	5.09	10.17
2	16.27	32.54	8.64	5.09	10.17
3	73.73	147.47	8.64	5.09	10.17
4	135.26	270.52	8.64	5.09	10.17
5	186.62	373.24	8.64	5.09	10.17
6	15.26	30.51	8.64	5.09	10.17
7	34.07	68.14	8.64	5.09	10.17
8	146.96	293.91	8.64	5.09	10.17
9	191.70	383.41	8.64	5.09	10.17
10	264.42	528.84	8.64	5.09	10.17
11	264.42	528.84	8.64	5.09	10.17

**Noder:**

19. Pan fydd taliad atodol ar gyfer sbectol fach neu nodweddion wyneb arbennig yn berthnasol, mae'r swm sy'n rhaid ei dalu ar gyfer trwsio fel a ganlyn:

Blaen y ffrâm: £64.42  
Ochr y ffrâm: £32.65  
Y ffrâm gyfan: £68.05

20. Pan fydd teclyn optegol yn cael ei drwsio am fwy nag un rheswm, wrth gyfrifo'r cyfanswm sydd i'w dalu, ni ddylai'r elfen o'r daleb sy'n ymwneud â thrwsio'r ffrâm fod yn fwy na £14.10.

## DATGANIAD O DÂL AM WASANAETHAU OFFTHALMIG CYFFREDINOL A CHYFARWYDDYDAU FFI OEDD

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 12(3), 76, 77 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(1) ("Deddf 2006") yn gwneud y penderfyniad a ganlyn ynghylch y tâl sydd i'w dalu i'r rhai sy'n darparu gwasanaethau offthalmig cyffredinol ac yn rhoi'r cyfarwyddydau a ganlyn mewn cysylltiad â'r tâl sydd i'w dalu i'r rhai sy'n darparu gwasanaethau archwilio llygaid o dan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig) (Cymru) 2023 a ffioedd eraill sy'n daladwy i'r rhai sy'n darparu'r gwasanaethau hyn.

Cyn gwneud y penderfyniad hwn o dan adrannau 76 a 77 o Ddeddf 2006 mewn perthynas â'r tâl sydd i'w dalu i'r rhai sy'n darparu gwasanaethau offthalmig cyffredinol, ymgynghorodd Gweinidogion Cymru â'r sefydliad a gydnabyddir ganddynt fel un sy'n cynrychioli contractwyr sy'n darparu gwasanaethau offthalmig cyffredinol.

### Rhan 1

#### Enwi, Cychwyn a Dehongli

#### Enwi, cychwyn a dehongli

1.—1) Enw'r cyfarwyddydau a'r penderfyniad hyn ar y cyd yw Datganiad o Dâl am Wasanaethau Offthalmig Cyffredinol a Chyfarwyddydau Ffioedd ("y Datganiad a'r Cyfarwyddydau Ffioedd").

(2) Daw'r Datganiad a'r Cyfarwyddydau Ffioedd i rym ar 7 Chwefror 2025 a deuant yn effeithiol o 21 Hydref 2024 ymlaen.

(3) Yn y Datganiad a'r Cyfarwyddydau Ffioedd hyn—

ystyr "arweinydd optometreg" ("*optometric lead*") yw'r person a etholir gan gydweithredfa optometreg i'w chynrychioli o fewn clwstwr gofal sylfaenol;

ystyr "Bwrdd Iechyd Lleol" ("*Local Health Board*") yw Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd drwy orchymyn o dan adran 11(2) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr "claf" ("*patient*") yw person y mae contractwr wedi cytuno i ddarparu gwasanaethau offthalmig cyffredinol neu wasanaethau archwilio llygaid iddo;

ystyr "clwstwr gofal sylfaenol" ("*primary care cluster*") yw grŵp o ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol sydd wedi cytuno i gydweithio i gyflenwi gwasanaethau sylfaenol ar draws ardal ddaearyddol benodedig;

ystyr "contractwr" ("*contractor*") yw person sydd wedi ymgymryd â darparu Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol ac y mae ei enw wedi ei gynnwys yn y rhestr offthalmig;



ystyr "cydweithredfa optometreg" ("*optometry collaborative*") yw grŵp o gontractwyr sy'n darparu gwasanaethau offthalmig sylfaenol o fewn ardal ddaearyddol yr un clwstwr gofal sylfaenol;

ystyr "cydweithredfa optometreg berthnasol" ("*relevant optometry collaborative*") yw'r gydweithredfa optometreg y mae'r contractwr yn darparu gwasanaethau offthalmig sylfaenol yn ei hardal;

ystyr "DPP" ("*CPD*") yw Datblygiad Proffesiynol Parhaus;

ystyr "GOC" ("*GOS*") yw Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol;

ystyr "Gwasanaethau Archwilio Llygaid" ("*Eye Examination Services*") yw'r gwasanaethau y mae rhaid i gontractwr eu darparu o dan baragraff 24 o Atodlen 4 i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig) (Cymru) 2023;

ystyr "Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol" ("*General Ophthalmic Services*") yw'r gwasanaethau y mae rhaid i gontractwr eu darparu o dan baragraff 23 o Atodlen 4 i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig) (Cymru) 2023;

ystyr "Gwasanaethau Offthalmig Sylfaenol" ("*Primary Ophthalmic Services*") yw, gyda'i gilydd-

(i) Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol, a

(ii) Gwasanaethau Archwilio Llygaid;

ystyr "optegydd corfforedig" ("*corporate optician*") yw corff corfforedig sydd wedi ei gofrestru yn y gofrestr o gyrff corfforedig a gynhelir o dan adran 9 o Ddeddf Optegwyr 1989(2), sy'n cynnal busnes fel optometrydd;

ystyr "optegydd cyflenwi" ("*dispensing optician*") yw person sydd wedi ei gofrestru fel optegydd cyflenwi yn y gofrestr a gynhelir o dan adran 7 o Ddeddf Optegwyr 1989 (cofrestr optegwyr);

ystyr "optegydd lensys cyffwrdd" ("*contact lens optician*") yw person sydd wedi ei gofrestru fel optegydd cyflenwi yn y gofrestr a gynhelir o dan adran 7 o Ddeddf Optegwyr 1989 (cofrestr optegwyr) gyda chofnod am arbenigedd mewn lensys cyffwrdd;

ystyr "optegydd lensys cyffwrdd achrededig Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru (GOCC) 2" ("*Wales General Ophthalmic Services (WGOS) 2 accredited contact lens optician*") yw optegydd lensys cyffwrdd sydd wedi ei achredu gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru i ymgymryd ag elfennau o'r gwasanaeth archwilio llygaid;

ystyr "optometrydd" ("*optometrist*") yw person sydd wedi ei gofrestru yn y gofrestr o optometryddion a gynhelir o dan adran 7 (cofrestr optegwyr) o Ddeddf Optegwyr 1989;

ystyr "Optometrydd-ragnodydd Annibynnol" ("*Independent Prescribing Optometrist*") yw person sydd wedi ei gofrestru fel optometrydd yn y gofrestr a gynhelir o dan adran 7 o Ddeddf Optegwyr 1989 (cofrestr optegwyr) gyda chofnod am arbenigedd mewn rhagnodi annibynnol;

ystyr "rhestr offthalmig" ("*offthalmic list*") yw'r rhestr a ddiffinnir yn rheoliad 10(2)(a) o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig) (Cymru) 2023;

ystyr "ymarferydd meddygol offthalmig" ("*ophthalmic medical practitioner*") yw person a gydnabyddir o dan reoliad 9 o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig) (Cymru) 2023 ac Atodlen 2 iddynt;

## Rhan 2

Ffioedd Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol a Gwasanaethau Archwilio Llygaid

### **Ffioedd Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol a Gwasanaethau Archwilio Llygaid**

2. Y ffi sy'n daladwy i gontractwr am ddarparu Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol yw £44.00.

3. Mae'r ffioedd archwilio llygaid sy'n daladwy i gontractwr am ddarparu Gwasanaethau Archwilio Llygaid fel a ganlyn: mae GOCC 2 Band 1 yn £71.63; GOCC 2 Band 2 yn £54.23; a GOCC 2 Band 3 yn £26.61.

### **Ffioedd ymweliadau cartref**

4. Y ffioedd sy'n daladwy i gontractwr, am ymweliad cartref y GIG a gynhaliwyd gan y contractwr yw—

- (a) £40.57 ar gyfer y claf cyntaf a'r ail glaf; a
- (b) £10.15 ar gyfer y trydydd claf a chleifion eraill.

### **Amodau sydd ynghlwm wrth dalu ffioedd Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol, Gwasanaethau Archwilio Llygaid ac ymweliadau cartref**

5. Dim ond os yw'r contractwr yn bodloni'r amodau a ganlyn y mae hawliad am ffioedd Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol, Gwasanaethau Archwilio Llygaid ac ymweliadau cartref, neu unrhyw ran ohonynt, yn daladwy—

- (a) rhaid i'r contractwr ddarparu i'r Bwrdd Iechyd Lleol unrhyw wybodaeth nad oes gan y Bwrdd Iechyd Lleol ond y mae arno ei hangen, sef gwybodaeth sydd naill ai gan y contractwr neu y gellid yn rhesymol disgwyl iddo gael gafael arni, er mwyn cyfrifo'r taliad sy'n daladwy i'r contractwr,
- (b) rhaid i'r contractwr gadw cofnodion cywir o'r holl weithgarwch Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol, Gwasanaethau Archwilio Llygaid ac ymweliadau cartref yr ymgymherir ag ef, gan gynnwys gofal llygaid brys ac argyfwng, ac
- (c) rhaid i'r holl wybodaeth a ddarperir gan y contractwr i'r Bwrdd Iechyd Lleol yn unol â'r paragraff hwn fod yn gywir hyd eithaf gwybodaeth a chred y contractwr.

6. Os bydd y contractwr yn torri unrhyw un neu ragor o'r amodau ym mharagraff 5, caiff y Bwrdd Iechyd Lleol, o dan amgylchiadau priodol, beidio â thalu ffi Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol, Gwasanaethau Archwilio Llygaid neu ymweliadau cartref, neu unrhyw ran ohoni, sy'n daladwy fel arall.

## Rhan 3

Lwfans DPP 2023

7.—(1) Yn y paragraff hwn—

Ystyr "lwfans DPP" ("*CPD allowance*") Blwyddyn Galendr 2023 yw'r symiau a ganlyn mewn cysylltiad â'r ymarferwyr a restrir:

Optometryddion £610.63

Taliad atodol Tystysgrif Broffesiynol mewn Retina Meddygol £77.00

Taliad atodol Uwch Dystysgrif mewn Glawcoma £77.00  
Taliad atodol Optometrydd Achrededig Golwg Gwan £77.00  
Optometryddion-ragnodwyr Annibynnol £764.63  
Optegwyr cyflenwi £338.10  
Optegwyr lensys cyffwrdd £459.11  
Optegwyr lensys cyffwrdd achrededig GOCC 2 £516.44  
Taliad atodol optegydd cyflenwi achrededig Golwg Gwan £77.00

ystyr “y flwyddyn berthnasol” (“*relevant year*”) yw’r flwyddyn sy’n dechrau ag 1 Ionawr 2023 ac sy’n dod i ben â 31 Rhagfyr 2023.

(2) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (9), rhaid i’r Bwrdd Iechyd Lleol dalu lwfans DPP i optometrydd, ac eithrio optegydd corfforedig—

- (a) os cafodd yr optometrydd ei gynnwys yn rhestr offthalmig y Bwrdd Iechyd Lleol y mae’n gwneud hawliad am lwfans DPP iddo am gyfnod o 6 mis o leiaf yn ystod y flwyddyn berthnasol a’i fod wedi cynnal ei gofrestrriad proffesiynol am y cyfnod hwnnw yn y flwyddyn berthnasol;
- (b) os yw’r optometrydd wedi ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus priodol yn ystod y flwyddyn berthnasol; ac
- (c) os yw’r optometrydd yn cydymffurfio ag is-baragraffau (11) a (12).

(3) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (9), rhaid i’r Bwrdd Iechyd Lleol dalu lwfans DPP i Optometrydd-ragnodydd Annibynnol, ac eithrio optegydd corfforedig—

- (a) os cafodd yr optometrydd ei gynnwys yn rhestr offthalmig y Bwrdd Iechyd Lleol y mae’n gwneud hawliad am lwfans DPP iddo am gyfnod o 6 mis o leiaf yn ystod y flwyddyn berthnasol a’i fod wedi cynnal ei gofrestrriad proffesiynol am y cyfnod hwnnw yn y flwyddyn berthnasol;
- (b) os yw’r optometrydd wedi ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus priodol sy’n berthnasol i’w gymhwyster uwch yn ystod y flwyddyn berthnasol; ac
- (c) os yw’r optometrydd yn cydymffurfio ag is-baragraffau (11) a (12).

(4) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (9), rhaid i’r Bwrdd Iechyd Lleol dalu taliad atodol Retina Meddygol i optometrydd sy’n dal tystysgrif broffesiynol Coleg yr Optometryddion mewn retina meddygol, neu uwch dystysgrif broffesiynol y Coleg mewn retina meddygol, ac eithrio optegydd corfforedig—

- (a) os cafodd yr optometrydd ei gynnwys yn rhestr offthalmig y Bwrdd Iechyd Lleol y mae’n gwneud hawliad am lwfans DPP iddo am gyfnod o 6 mis o leiaf yn ystod y flwyddyn berthnasol a’i fod wedi cynnal ei gofrestrriad proffesiynol am y cyfnod hwnnw yn y flwyddyn berthnasol;
- (b) os yw’r optometrydd wedi ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus priodol sy’n berthnasol i’w gymhwyster uwch yn ystod y flwyddyn berthnasol; ac
- (c) os yw’r optometrydd yn cydymffurfio ag is-baragraffau (11) a (12).

(5) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (9), rhaid i’r Bwrdd Iechyd Lleol dalu taliad atodol i optometrydd sy’n dal uwch dystysgrif broffesiynol Coleg yr Optometryddion mewn glawcoma, neu ddiploma proffesiynol y Coleg mewn glawcoma, ac eithrio optegydd corfforedig—

- (a) os cafodd yr optometrydd ei gynnwys yn rhestr offthalmig y Bwrdd Iechyd Lleol y mae'n gwneud hawliad am lwfans DPP iddo am gyfnod o 6 mis o leiaf yn ystod y flwyddyn berthnasol a'i fod wedi cynnal ei gofrestrriad proffesiynol am y cyfnod hwnnw yn y flwyddyn berthnasol;
- (b) os yw'r optometrydd wedi ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus priodol sy'n berthnasol i'w gymhwyster uwch yn ystod y flwyddyn berthnasol; ac
- (c) os yw'r optometrydd yn cydymffurfio ag is-baragraffau (11) a (12).

(6) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (9), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol dalu taliad atodol Golwg Gwan i optometrydd sydd wedi cwblhau hyfforddiant ychwanegol gorfodol Golwg Gwan GOCC 3 a ddarperir gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru, ac eithrio optegydd corfforedig—

- (a) os cafodd yr optometrydd ei gynnwys yn rhestr offthalmig y Bwrdd Iechyd Lleol y mae'n gwneud hawliad am lwfans DPP iddo am gyfnod o 6 mis o leiaf yn ystod y flwyddyn berthnasol a'i fod wedi cynnal ei gofrestrriad proffesiynol am y cyfnod hwnnw yn y flwyddyn berthnasol;
- (b) os yw'r optometrydd wedi ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus priodol sy'n berthnasol i'w gymhwyster uwch yn ystod y flwyddyn berthnasol; ac
- (c) os yw'r optometrydd yn cydymffurfio ag is-baragraffau (11) a (12).

(7) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (9), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol dalu lwfans DPP i ymarferydd meddygol offthalmig—

- (a) os, yn ystod y flwyddyn berthnasol, mai ei unig weithgarwch meddygol neu optegol am dâl oedd cynnal Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol;
- (b) os yw wedi ei gynnwys yn rhestr offthalmig y Bwrdd Iechyd Lleol y mae'n gwneud hawliad am lwfans DPP iddo am gyfnod o 6 mis o leiaf yn ystod y flwyddyn berthnasol a'i fod wedi cynnal ei gofrestrriad proffesiynol am y cyfnod hwnnw yn y flwyddyn berthnasol;
- (c) os yw wedi ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus priodol yn ystod y flwyddyn berthnasol; a
- (d) os yw'n cydymffurfio ag is-baragraffau (11) a (12).

(8) Yn ddarostyngedig i is-baragraffau (9) a (10), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol dalu lwfans DPP ac unrhyw daliad atodol Retina Meddygol neu Uwch Dystysgrif/Diploma mewn Glawcoma neu Olwg Gwan cymwys i gontractwr, pan fo'n gymwys mewn cysylltiad â'r canlynol—

- (a) pob cynorthwydd a gyflogir gan y contractwr hwnnw os yw'r cynorthwydd—
  - (i) yn optometrydd (ac eithrio optegydd corfforedig);
  - (ii) wedi ei gynnwys yn rhestr atodol y Bwrdd Iechyd Lleol y mae'r contractwr yn gwneud hawliad am lwfans DPP iddo;
  - (iii) wedi helpu i ddarparu gwasanaethau offthalmig cyffredinol a/neu wasanaethau archwilio llygaid am gyfnod o 6 mis o leiaf yn ystod y flwyddyn berthnasol a'i fod wedi cynnal ei gofrestrriad proffesiynol am y cyfnod hwnnw yn y flwyddyn berthnasol; a
  - (iv) wedi ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus priodol yn ystod y flwyddyn berthnasol;
- (b) pob optegydd cyflenwi ac optegydd lensys cyffwrdd a gyflogir gan y contractwr hwnnw os yw'r optegydd cyflenwi neu'r optegydd lensys cyffwrdd hwnnw—

- (i) yn cael ei gyflogi gan contractwr sydd wedi ei gynnwys yn rhestr offthalmig y Bwrdd Iechyd Lleol y mae'r contractwr yn gwneud hawliad am lwfans DPP iddo; a
- (ii) wedi ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus priodol yn ystod y flwyddyn berthnasol,

a bod y contractwr yn cydymffurfio ag is-baragraffau (11) ac (12).

(9) Dim ond un lwfans DPP, ynghyd ag unrhyw daliad atodol Retina Meddygol a/neu Dystysgrif Uwch mewn Glawcoma cymwys, y caniateir ei hawlio mewn cysylltiad ag unrhyw un person.

(10) Pan fo cynorthwydd neu optegydd cyflenwi yn cael ei gyflogi gan ddau neu ragor o contractwyr, caiff y lwfans DPP ei dalu i'r contractwr y mae'r cynorthwydd neu'r optegydd cyflenwi yn ei enwebu at ddiben talu'r lwfans DPP o dan y penderfyniad hwn.

(11) Rhaid i hawliad am lwfans DPP (ynghyd ag unrhyw daliad atodol cymwys) gael ei wneud yn ysgrifenedig ar y ffurflen a gymeradwyir at y diben hwn gan Weinidogion Cymru.

(12) Rhaid llenwi ffurflen hawlio ar wahân ar gyfer pob lwfans DPP (ynghyd ag unrhyw daliad atodol cymwys) a hawlir.

## Rhan 4

### Lwfans DPP 2024

8.(1). Yn y paragraff hwn –

Ystyr "lwfans DPP" ("*CPD allowance*") Blwyddyn Galendr 2024 yw'r symiau a ganlyn mewn cysylltiad â'r ymarferwyr a restrir:

Optometryddion £763.29

Optometryddion-ragnodwyr Annibynnol £1,529.26

Optometrydd â Chymhwyster Uwch mewn Retina Meddygol £1,375.26

Optometrydd â Chymhwyster Uwch mewn Glawcoma £1,375.26

Optometrydd Golwg Gwan £1,375.26

Optegwyr cyflenwi £422.63

Optegwyr lensys cyffwrdd £459.11

Optegwyr lensys cyffwrdd achrededig GOCC 2 £561.44

Optegydd Cyflenwi Golwg Gwan £519.71

ystyr "y flwyddyn berthnasol" ("*relevant year*") yw'r flwyddyn sy'n dechrau ag 1 Ionawr 2024 ac sy'n dod i ben â 31 Rhagfyr 2024.

(2) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (9), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol dalu lwfans DPP i optometrydd, ac eithrio optegydd corfforedig—

- (a) os cafodd yr optometrydd ei gynnwys yn rhestr offthalmig y Bwrdd Iechyd Lleol y mae'n gwneud hawliad am lwfans DPP iddo am gyfnod o 6 mis o leiaf yn ystod y flwyddyn berthnasol a'i fod wedi cynnal ei gofrestrriad proffesiynol am y cyfnod hwnnw yn y flwyddyn berthnasol;
- (b) os yw'r optometrydd wedi ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus priodol yn ystod y flwyddyn berthnasol; ac

(c) os yw'r optometrydd yn cydymffurfio ag is-baragraffau (11) a (12).

(3) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (9), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol dalu lwfans DPP i Optometrydd-ragnodydd Annibynnol, ac eithrio optegydd corfforedig—

(a) os cafodd yr optometrydd ei gynnwys yn rhestr offthalmig y Bwrdd Iechyd Lleol y mae'n gwneud hawliad am lwfans DPP iddo am gyfnod o 6 mis o leiaf yn ystod y flwyddyn berthnasol a'i fod wedi cynnal ei gofrestrriad proffesiynol am y cyfnod hwnnw yn y flwyddyn berthnasol;

(b) os yw'r optometrydd wedi ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus priodol sy'n berthnasol i'w gymhwyster uwch yn ystod y flwyddyn berthnasol;

(c) os yw'r optometrydd wedi archwilio a rheoli cleifion yn briodol sy'n berthnasol i'w gymhwyster uwch drwy wasanaethau GOCC 5 am gyfnod o 3 mis o leiaf yn ystod y flwyddyn berthnasol; a

(d) os yw'r optometrydd yn cydymffurfio ag is-baragraffau (11) a (12).

(4) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (9), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol dalu lwfans DPP i optometrydd Retina Meddygol sy'n dal tystysgrif broffesiynol Coleg yr Optometryddion mewn retina meddygol, neu uwch dystysgrif broffesiynol y Coleg mewn retina meddygol, ac eithrio optegydd corfforedig—

(a) os cafodd yr optometrydd ei gynnwys yn rhestr offthalmig y Bwrdd Iechyd Lleol y mae'n gwneud hawliad am lwfans DPP iddo am gyfnod o 6 mis o leiaf yn ystod y flwyddyn berthnasol a'i fod wedi cynnal ei gofrestrriad proffesiynol am y cyfnod hwnnw yn y flwyddyn berthnasol;

(b) os yw'r optometrydd wedi ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus priodol sy'n berthnasol i'w gymhwyster uwch yn ystod y flwyddyn berthnasol;

(c) os yw'r optometrydd wedi archwilio a rheoli cleifion yn briodol sy'n berthnasol i'w gymhwyster uwch drwy wasanaethau GOCC 4 am gyfnod o 3 mis o leiaf yn ystod y flwyddyn berthnasol; a

(d) os yw'r optometrydd yn cydymffurfio ag is-baragraffau (11) a (12).

(5) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (9), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol dalu lwfans DPP i optometrydd sy'n dal uwch dystysgrif broffesiynol Coleg yr Optometryddion mewn glawcoma, neu ddiploma proffesiynol y Coleg mewn glawcoma, ac eithrio optegydd corfforedig—

(a) os cafodd yr optometrydd ei gynnwys yn rhestr offthalmig y Bwrdd Iechyd Lleol y mae'n gwneud hawliad am lwfans DPP iddo am gyfnod o 6 mis o leiaf yn ystod y flwyddyn berthnasol a'i fod wedi cynnal ei gofrestrriad proffesiynol am y cyfnod hwnnw yn y flwyddyn berthnasol;

(b) os yw'r optometrydd wedi ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus priodol sy'n berthnasol i'w gymhwyster uwch yn ystod y flwyddyn berthnasol;

(c) os yw'r optometrydd wedi archwilio a rheoli cleifion yn briodol sy'n berthnasol i'w gymhwyster uwch drwy wasanaethau GOCC 4 neu 5 am gyfnod o 3 mis o leiaf yn ystod y flwyddyn berthnasol; a

(d) os yw'r optometrydd yn cydymffurfio ag is-baragraffau (11) a (12).

(6) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (9), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol dalu lwfans DPP i optometrydd sydd wedi cwblhau hyfforddiant ychwanegol gorfodol Golwg Gwan GOCC 3 a ddarperir gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru, ac eithrio optegydd corfforedig—

- (a) os cafodd yr optometrydd ei gynnwys yn rhestr offthalmig y Bwrdd Iechyd Lleol y mae'n gwneud hawliad am lwfans DPP iddo am gyfnod o 6 mis o leiaf yn ystod y flwyddyn berthnasol a'i fod wedi cynnal ei gofrestrriad proffesiynol am y cyfnod hwnnw yn y flwyddyn berthnasol;
- (b) os yw'r optometrydd wedi ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus priodol sy'n berthnasol i'w gymhwyster uwch yn ystod y flwyddyn berthnasol;
- (c) os yw'r optometrydd wedi archwilio a rheoli cleifion yn briodol sy'n berthnasol i'w gymhwyster uwch drwy wasanaethau GOCC 3 am gyfnod o 3 mis o leiaf yn ystod y flwyddyn berthnasol; a
- (d) os yw'r optometrydd yn cydymffurfio ag is-baragraffau (11) a (12).

(7) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (9), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol dalu lwfans DPP i ymarferydd meddygol offthalmig—

- (a) os, yn ystod y flwyddyn berthnasol, mai ei unig weithgarwch meddygol neu optegol am dâl oedd cynnal Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol;
- (b) os yw wedi ei gynnwys yn rhestr offthalmig y Bwrdd Iechyd Lleol y mae'n gwneud hawliad am lwfans DPP iddo am gyfnod o 3 mis o leiaf yn ystod y flwyddyn berthnasol a'i fod wedi cynnal ei gofrestrriad proffesiynol am y cyfnod hwnnw yn y flwyddyn berthnasol;
- (c) os yw wedi ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus priodol yn ystod y flwyddyn berthnasol; a
- (d) os yw'n cydymffurfio ag is-baragraffau (11) a (12).

(8) Yn ddarostyngedig i is-baragraffau (9) a (10), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol dalu lwfans DPP ac unrhyw daliad atodol Golwg Gwan, Retina Meddygol neu Uwch Dystysgrif/Diploma mewn Glawcoma cymwys i gontractwr, pan fo'n gymwys mewn cysylltiad â'r canlynol—

- (a) pob cynorthwydd a gyflogir gan y contractwr hwnnw os yw'r cynorthwydd—
  - (i) yn optometrydd (ac eithrio optegydd corfforedig);
  - (ii) wedi ei gynnwys yn rhestr atodol y Bwrdd Iechyd Lleol y mae'r contractwr yn gwneud hawliad am lwfans DPP iddo;
  - (iii) wedi helpu i ddarparu gwasanaethau offthalmig cyffredinol a/neu wasanaethau archwilio llygaid am gyfnod o 6 mis o leiaf yn ystod y flwyddyn berthnasol a'i fod wedi cynnal ei gofrestrriad proffesiynol am y cyfnod hwnnw yn y flwyddyn berthnasol;
  - (iv) wedi archwilio a rheoli cleifion yn briodol sy'n berthnasol i'w gymhwyster uwch drwy wasanaethau GOCC 3, 4 neu 5 am gyfnod o 3 mis o leiaf yn ystod y flwyddyn berthnasol; a
  - (v) wedi ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus priodol yn ystod y flwyddyn berthnasol;
- (b) pob optegydd cyflenwi ac optegydd lensys cyffwrdd a gyflogir gan y contractwr hwnnw os yw'r optegydd cyflenwi neu'r optegydd lensys cyffwrdd hwnnw—
  - (i) yn cael ei gyflogi gan gontractwr sydd wedi ei gynnwys yn rhestr offthalmig y Bwrdd Iechyd Lleol y mae'r contractwr yn gwneud hawliad am lwfans DPP iddo;
  - (ii) wedi ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus priodol yn ystod y flwyddyn berthnasol; a

(iii) wedi archwilio a rheoli cleifion yn briodol sy'n berthnasol i'w gymhwyster uwch drwy wasanaethau GOCC 3 am gyfnod o 3 mis o leiaf yn ystod y flwyddyn berthnasol,

a bod y contractwr yn cydymffurfio ag is-baragraffau (10) ac (11).

(9) Dim ond un lwfans DPP, ynghyd ag unrhyw daliad atodol Retina Meddygol a/neu Dystysgrif Uwch mewn Glawcoma cymwys, y caniateir ei hawlio mewn cysylltiad ag unrhyw un person.

(10) Pan fo cynorthwydd neu optegydd cyflenwi yn cael ei gyflogi gan ddau neu ragor o contractwyr, caiff y lwfans DPP ei dalu i'r contractwr y mae'r cynorthwydd neu'r optegydd cyflenwi yn ei enwebu at ddiben talu'r lwfans DPP o dan y penderfyniad hwn.

(11) Rhaid i hawliad am lwfans DPP (ynghyd ag unrhyw daliad atodol cymwys) gael ei wneud yn ysgrifenedig ar y ffurflen a gymeradwyir at y diben hwn gan Weinidogion Cymru.

(12) Rhaid llenwi ffurflen hawlio ar wahân ar gyfer pob lwfans DPP (ynghyd ag unrhyw daliad atodol cymwys) a hawliar.

## **Rhan 5**

### **Ffioedd cydweithredfeydd optometreg**

**9.—**(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol dalu'r swm o £277.10 i gontractwr-

(a) os yw'r contractwr wedi ei gynnwys yn rhestr offthalmig y Bwrdd Iechyd Lleol hwnnw, a

(b) os yw'r contractwr yn mynd i un o gyfarfodydd y gydweithredfa optometreg berthnasol.

(2) Ni chaniateir talu mwy na £1,108.40 i gontractwr o dan is-baragraff (1) mewn unrhyw un flwyddyn ariannol.

— (1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol dalu'r swm o £2,200 i gontractwr mewn cysylltiad â chynorthwydd a gyflogir gan y contractwr hwnnw sydd wedi ei ethol fel arweinydd optometreg gan gydweithredfa optometreg i'w chynrychioli o fewn clwstwr gofal sylfaenol.

(2) Ni chaniateir talu mwy na £2,200 i gontractwr o dan is-baragraff (1) mewn unrhyw un flwyddyn ariannol.

## **Rhan 6**

**10. Grant Ymarfer (Tystysgrif Broffesiynol Uwch GOCC 4 mewn Glawcoma)**

(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol dalu'r swm o £125 y sesiwn (£250 y diwrnod) i gontractwr-

(a) os yw'r contractwr wedi ei gynnwys yn rhestr offthalmig y Bwrdd Iechyd Lleol hwnnw, a

(b) os yw'r contractwr yn rhyddhau optometrydd sy'n ymgymryd â lleoliadau clinigol er mwyn ennill Tystysgrif Broffesiynol Uwch Coleg yr Optometryddion mewn Glawcoma.

(2) Ni chaniateir talu mwy na £5,000 i gontractwr o dan is-baragraff (1) mewn unrhyw un flwyddyn ariannol.



## Rhan 7

### Ansawdd ar gyfer Optometreg

11. - (1) Bydd Cynllun Ansawdd ar gyfer Optometreg 2024/25 yn cynnwys yr elfennau a ganlyn:

- System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru (Adroddiadau misol)
- Hunanasesiad gwella ansawdd a llywodraethu (ffurflen flynyddol)
- Cynnal a chyflwyno Archwiliadau (Uchafswm o dri ym mhob blwyddyn ariannol)
- Hyfforddiant gorfodol (Yn ôl yr angen)

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol dalu i'r contractwr swm o

(3) £5,000 mewn rhandaliadau chwarterol o £1,250-

(a) os yw'r contractwr wedi ei gynnwys yn rhestr offthalmig y Bwrdd Iechyd Lleol hwnnw, a

(b) os yw'r contractwr yn cwblhau pob elfen o'r Cynllun Ansawdd ar gyfer Optometreg.

(4) Ni chaniateir talu mwy na £5,000 i contractwr o dan is-baragraff (2) mewn unrhyw un flwyddyn ariannol.

## RHAN 8

### DIRYMIADAU

12. Mae'r Datganiad o Dâl Am Wasanaethau Offthalmig Cyffredinol a Chyfarwyddydau Ffioedd a ddaeth i rym ar 20 Hydref 2023 wedi ei ddirymu.



**Llofnodwyd gan Paul Casey, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Gofal Sylfaenol a Chymunedol, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru**

**14 Chwefror 2025**